

Chwarae rôl

Chwarae rôl



Llafaredd (TC1): Chwarae Rôl (yn seiliedig ar Chwedl Cantre'r Gwaelod)

Nod: *Estyn gwahoddiad / Trefnu parti.*

Camau:

1. Cyflwynwch 'Chwedl Cantre'r Gwaelod', Non ap Emlyn, Uned 6 Rhan 1, Y Pod Antur Cymraeg (P-AC2).
2. Edrychwch ar fap o Gymru i leoli Cantre'r Gwaelod (P-AC2 Disg Uned 5 a 6).
3. Cyflwynwch y termau Gogledd, De, Dwyrain, Gorllewin.
4. Cyflwynwch eirfa'r stori gan ddethol o'r rhestr Geirfa (tudalen 14, Cantre'r Gwaelod (P-AC2).
5. Y dysgwyr i gyfateb y geiriau Cymraeg a'r Saesneg.
6. Holwch (Athro / Athrawes / Helpwr Heddiw) y dysgwyr 'Beth ydy ... yn Gymraeg?' Y dysgwyr i gofnodi'r ateb ar eu byrddau gwyn bach.
7. Hwyl gyda geiriau – gweithgareddau drilio geirfa:
 - Defnyddiwch y cardiau dolen (**Atodiad 1**) i adolygu / ymarfer yr eirfa. Gosodwch her drwy amseru'r dasg
 - Bingo geirfa
 - Mewn munud y dysgwyr i gofnodi'r eirfa y maent yn ei chofio. Y pâr sydd â'r rhestr hwyaf i ddarllen eu rhestr ar goedd fel bod cyfle i weddill y dosbarth wirio eu rhestrau hwythau
 - Chwaraewch y gêm 'Beth sy ar goll?' Dangoswch yr eirfa, yna y dysgwyr i gau eu llygaid a pheidio â sbecian. Cuddiwch air, yna'r dysgwyr i agor eu llygaid a nodi ar eu byrddau gwyn bach pa air sydd ar goll. Gwirio
 - Chwaraewch gêm Mr Taten (Hangman)

Chwarae rôl



Gellir cynnwys y gweithgareddau a nodir yn Cam 7 yn y sesiynau Helpwr Heddiw.

8. Y dysgwyr i wrando ar stori Cantre'r Gwaelod (P-AC2 Disg Uned 5 a 6).
9. Sefydlwch ddealltwriaeth y dysgwyr o'r stori drwy holi beth sy'n digwydd. Y dysgwyr i wrando eto gan glustfeinio y tro hwn am yr eirfa a gyflwynwyd.
10. Cyflwynwch y stori ar ffurf Pie Corbett.

Am fwy o wybodaeth am ddulliau Pie Corbett, gweler

- The Bumper Book of Storytelling into Writing – Key Stage 1, Pie Corbett, Clown Publications 2006
- The Bumper Book of Storytelling into Writing – Key Stage 2, Pie Corbett, Clown publications 2007

Canllawiau

- Adroddwch stori Cantre'r Gwaelod gan annog y dysgwyr i wrando am y geiriau allweddol
- Wedi adrodd y stori unwaith, tynnwch lun map stori syml sydd yn cyfleu'r stori yn eglur ac yn canolbwyntio ar y prif ddigwyddiadau. Rhaid arddangos y map mewn man amlwg er mwyn i'r dysgwyr allu ei weld tra'n dysgu'r stori
- Crëwch symudiadau i gyfleu'r ymadroddion allweddol a'r prif ddigwyddiadau. Gellir amrywio'r symudiadau sy'n cyfleu prif ddigwyddiadau'r stori ond dylai'r symudiadau sy'n cyfleu'r ymadroddion allweddol aros yr un fath ar gyfer pob stori. Mae hyn yn sicrhau cysondeb drwy'r ysgol

Chwarae rôl



Isod mae awgrymiadau ar gyfer yr ymadroddion allweddol yn Chwedl Cantre'r Gwaelod, Llyfr Cantre'r Gwaelod, Uned 6: Rhan 1(P-AC2), Non ap Emlyn.

<i>Ymadroddion Allweddol</i>	<i>Symudiad</i>
<i>Roedd</i>	<i>Codi'r ddau fawd a phwyntio am yn ôl.</i>
<i>Mae</i>	<i>Pwyntio'r ddwy law am i lawr.</i>
<i>Pan oedd</i>	<i>Pwyntio un bawd i'r ochr.</i>
<i>Un noson</i>	<i>Agor a chau dwylo.</i>
<i>Weithiau</i>	<i>Llaw tuag allan a'r cledr ar agor ac yn wynebu i fyny.</i>

- Defnyddiwch y map stori i ail adrodd y stori gan annog y dysgwyr i ymuno gyda'r symudiadau
 - Y dysgwyr i lunio eu map Chwedl Cantre'r Gwaelod eu hunain gan feddwl am symudiadau i gyfleu'r digwyddiadau yn y chwedl. Anogwch y dysgwyr i ddefnyddio yr un symudiadau ar gyfer yr ymadroddion allweddol
 - Rhowch gyfle i'r dysgwyr ymarfer a pherfformio eu storïau
11. Y dysgwyr i ysgrifennu testun yn y swigod neu greu naratif i gyd fynd â'r lluniau ar dudalennau 5, 6, 7 yn Llyfr Cantre'r Gwaelod, Non ap Emlyn (**Atodiad 2**)
12. Cyflwynwch 'Deialog Lefel 3' (**Atodiad 3**) ar gyfer chwarae rôl.

Camau:

- Darllenwch y ddeialog er mwyn modelu'r sgwrs i'r dysgwyr.
- Rhowch gyfle i'r dysgwyr ddarllen y ddeialog
 - fel dobarth
 - mewn grwpiau
 - mewn parau

Chwarae rôl



13. Trafodwch sut y gellir defnyddio'r model hwn i greu gwahoddiad / trefnu ymweliad, e.e. i siopa, disgo, sŵ, parti pen-blwydd. Ewch ati fel dosbarth / grwpiau / parau i adnabod y ffeithiau allweddol y gellid eu disodli.
14. Y dysgwyr fel dosbarth / parau i ddarllen ac ymarfer eu deialog ar ei newydd wedd. Trafodwch a chytunwch ar feini prawf llwyddiant cyn i'r dysgwyr fwrw ati gyda'r dasg. **(Atodiad 4)**
- 15 Wedi cwblhau'r dasg, y dysgwyr i ymarfer y ddeialog cyn ei pherfformio / recordio / ffilmio. Grŵp / dosbarth i asesu'r perfformiad yn erbyn y meini prawf llwyddiant. **(Atodiad 4)**

Chwarae rôl



Symud dysgwyr o lefel 3 i lefel 4

1. Trafodwch sut y gellir gwella 'Deialog Lefel 3' ac yna edrychwch ar gopi o 'Deialog Lefel 4' (**Atodiad 5**). Y dysgwyr i gymharu'r ddwy ddeialog drwy gip ddarllen a thanlinellu / nodi'r gwahaniaethau. Gweler y tabl isod.

Lefel 3	Lefel 4
Ydy, braf iawn.	Ydy, braf iawn ond mae hi'n oer hefyd.
Gogledd: Dw i'n mwynhau ... De: Dw i'n hoffi ...	Gogledd: Dw i wrth fy modd yn ... De: Dw i'n mwynhau / dwlu ar ...
	Es i i barti pen-blwydd Jac ... dawnsio a hwyl. (Lefel 4 Llafaredd '... yn sôn am rai profiadau.')
Dw i'n hoffi dawnsio. Gogledd: Dw i ddim yn hoffi brechdanau caws ond dw i'n hoffi brechdanau ham. De: Dw i ddim yn hoffi brechdanau caws ond dw i'n dwlu ar frechdanau ham. (Lefel 3 Llafaredd 'Byddant yn mynegi barn yn syml ac yn gwneud rhai gosodiadau yn wirfoddol.')	Gogledd: Mae'n gas gen i ddawnsio achos mae'n ddiflas. De: Mae'n gas 'da fi ddawnsio achos mae'n ddiflas. Dw i ddim yn hoffi brechdanau caws achos mae caws yn ddiflas. Brechdanau ham ydy fy hoff frechdanau achos mae ham yn flasus dros ben. (Lefel 4 Llafaredd 'Wrth fynegi barn, byddant yn cynnig rhesymau amrywiol.')
	Es i i barti pen-blwydd Jac ... dawnsio a hwyl. Dw i'n hoffi chwarae gemau hefyd ... Dw i'n edrych ymlaen at fynd i'r parti ... (Lefel 4:Llafaredd 'Ymateb a chynnig rhai sylwadau gwirfoddol.')

Chwarae rôl




2. Defnyddiwch 'Deialog Lefel 4' (**Atodiad 5**) er mwyn paratoi'r dysgwyr ar gyfer chwarae rôl.


Camau:

- Y dysgwyr i wrando ar y ddeialog a dilyn y testun
 - Rhowch gyfle i'r dysgwyr ddarllen y ddeialog
 - fel dosbarth
 - mewn grwpiau
 - mewn parau
 - Torrwch y ddeialog, ac yna yn eu parau / grwpiau, y dysgwyr i ail osod y ddeialog mewn trefn. Gellir amseru'r dasg
3. Y dysgwyr, fel dosbarth / grŵp / parau, i greu deialog gan ddefnyddio'r canllawiau Saesneg (**Atodiad 5**).
 4. Rhowch gyfle i'r dysgwyr ymarfer eu deialog cyn mynd ati i'w pherfformio / recordio / ffilmio.
 5. Y dysgwyr i hunanasesu / asesu cymheiriaid gan ddefnyddio y meini prawf llwyddiant (**Atodiad 6**).
 6. Wedi meistrolï'r sgil o chwarae rôl / cynnal sgwrs, dylid annog y dysgwyr i greu eu sgwrs eu hunain yn seiledig ar olygfa o chwedl Cantre'r Gwaelod.

Os nad yw'r Pod Antur yn eich ysgol, dyma opsiynau eraill

- Cantre'r Gwaelod gan Nanna Ryder a Carys Richards, Gwasg Gomer, [ISBN: 9781848511934], www.gomer.co.uk.
- Gwefan Hwb (NGFL)





Role play

Role play



Oracy (TC1): Role Play (based on Cantre'r Gwaelod)

Aim: *Extend an invitation / Organise a party.*

Steps:

1. Introduce 'Chwedl Cantre'r Gwaelod', Non ap Emlyn, Unit 6 Part 1, Y Pod Antur Cymraeg (P-AC2).
2. Look at a map of Wales in order to locate Cantre'r Gwaelod (P-AC2 Disg Uned 5 a 6).
3. Introduce the terms Gogledd (North), De (South), Dwyrain (East), Gorllewin (West).
4. Introduce the vocabulary relevant to the story by selecting from the Vocabulary list (page 14, Llyfr Cantre'r Gwaelod (P-AC2)).
5. Learners to match the Welsh and English words.
6. Teacher / Today's Helper to ask the learners 'What is ... in Welsh?'
Learners to note the answer on their individual white board.
7. Fun with words - vocabulary drilling activities:
 - Use the loop cards (**Appendix 1**) to revise / practise the vocabulary. Set the learners a challenge by timing the task
 - Bingo
 - In pairs, learners to note as many words as they can remember within a minute. The pair with the longest list to read their list aloud so that the rest of the class can check their lists
 - 'What's missing?' game - Teacher to show the vocabulary and then ask the learners to close their eyes. Teacher to hide a word and then ask the learners to open their eyes and note the missing word on their white board. Check answers
 - Hangman

Role play



The activities outlined in Step 7 can be included in Today's Helper sessions.

8. Learners to listen to the Cantre'r Gwaelod story (P-AC2 Disg Uned 5 a 6).
9. Reinforce the learners' understanding of the story by questioning them about its content. Learners to listen again, focusing on the vocabulary previously introduced.
10. Present the story using the Pie Corbett techniques.

For further information about Pie Corbett techniques, see

- The Bumper Book of Storytelling into Writing - Key Stage 1, Pie Corbett, Clown Publications 2006
- The Bumper Book of Storytelling into Writing - Key Stage 2, Pie Corbett, Clown Publications 2007

Guidelines

- Read the story aloud and encourage the learners to listen for key vocabulary
- After reading the story once, create a simple story map which depicts the content clearly and focuses on the main events. The map should be exhibited in an obvious place so that the learners can see it while learning the story
- Create actions to convey the key phrases and events. (The actions which convey the main events can be varied but the actions which convey the key phrases should remain the same from story to story. This promotes consistency throughout the school)

Role play



Below is a list of suggestions for the key phrases in Chwedl Cantre'r Gwaelod, Llyfr Cantre'r Gwaelod, Uned 6: Rhan 1 (P-AC2), Non ap Emlyn

Key Phrase	Movement
<i>Roedd</i>	<i>Raise both thumbs and point backwards.</i>
<i>Mae</i>	<i>Both hands to point downwards.</i>
<i>Pan oedd</i>	<i>Point one thumb to the side.</i>
<i>Un noson</i>	<i>Open then close hands.</i>
<i>Weithiau</i>	<i>Hold hand outwards with palm of hand facing upwards.</i>

- Use the map of the story to retell the story and encourage the learners to use the relevant actions
 - The learners to create an individual map of Chwedl Cantre'r Gwaelod including actions to convey the main events. The agreed actions should be used for the key phrases
 - Allow the learners time to practise their story before presenting it to the class
11. Learners to write text in the speech bubbles or create narrative which corresponds to the pictures on pages 5, 6, 7 in Llyfr Cantre'r Gwaelod, Non ap Emlyn (**Appendix 2**).
 12. Introduce 'Deialog Lefel 3' (**Appendix 3**) so that the learners can take part in a role play exercise.

Role play



Steps:

- Read the dialogue in order to model it effectively to the learners
 - Allow an opportunity for the learners to read the dialogue
 - as a class
 - in groups
 - in pairs
13. Discuss how this dialogue could be adapted to write an invitation / organise a visit, e.g. shopping, disco, zoo, birthday party. As a class, identify the key facts which can be replaced.
14. As a class or in pairs, learners to read and practise their new dialogue. Discuss and agree on the success criteria before the learners undertake the task (**Appendix 4**).
15. After completing the task, the learners should practise their dialogue before performing / recording / filming. Group / class to assess the performance against the success criteria (**Appendix 4**).

Role play



Moving learners from level 3 to level 4

1. Discuss how 'Deialog Lefel 3' could be improved and then look at 'Deialog Lefel 4' (**Appendix 5**). Learners to compare the two dialogues by skimming and underlining / noting the differences. See the table below.

Lefel 3	Lefel 4
Ydy, braf iawn.	Ydy, braf iawn ond mae hi'n oer hefyd.
Gogledd: Dw i'n mwynhau ... De: Dw i'n hoffi ...	Gogledd: Dw i wrth fy modd yn ... De: Dw i'n mwynhau / dwlu ar ...
	Es i i barti pen-blwydd Jac ... dawnsio a hwyl. (Lefel 4 Llafaredd '... yn sôn am rai profiadau.')
Dw i'n hoffi dawnsio. Gogledd: Dw i ddim yn hoffi brechdanau caws ond dw i'n hoffi brechdanau ham. De: Dw i ddim yn hoffi brechdanau caws ond dw i'n dwlu ar frechdanau ham. (Lefel 3 Llafaredd 'Byddant yn mynegi barn yn syml ac yn gwneud rhai gosodiadau yn wirfoddol.')	Gogledd: Mae'n gas gen i ddawnsio achos mae'n ddiflas. De: Mae'n gas 'da fi ddawnsio achos mae'n ddiflas. Dw i ddim yn hoffi brechdanau caws achos mae caws yn ddiflas. Brechdanau ham ydy fy hoff frechdanau achos mae ham yn flasus dros ben. (Lefel 4 Llafaredd 'Wrth fynegi barn, byddant yn cynnig rhesymau amrywiol.')
	Es i i barti pen-blwydd Jac ... dawnsio a hwyl. Dw i'n hoffi chwarae gemau hefyd ... Dw i'n edrych ymlaen at fynd i'r parti ... (Lefel 4:Llafaredd 'Ymateb a chynnig rhai sylwadau gwirfoddol.')

Role play



2. Use 'Deialog Lefel 4' (**Appendix 5**) in order to prepare the learners for the role play exercise.









Steps:

- Learners to listen to the dialogue and follow the text
 - Allow the learners to read the dialogue as a class, in groups and in pairs
 - Cut up the dialogue so that the learners can arrange it in the correct order. This task can be timed
3. Learners (as a class or in a group / pair situation) to create a dialogue using the English prompts (**Appendix 6**).
 4. Allow learners time to practise their dialogues before performing / recording / filming.
 5. Learners to use Appendix 7 to assess their own performance or that of their peers.
 6. Having familiarised themselves with the skills required to complete a role play / dialogue exercise, the learners can write their own dialogue based on a scene from Cantre'r Gwaelod.

If you don't have a copy of the Pod Antur, here are other options:

- Cantre'r Gwaelod, Nanna Ryder and Carys Richards, Gomer, [ISBN 9781848511934], www.gomer.co.uk
- Hwb Website (NGFL)

Atodiad 1 / Appendix 1



Atodiad 1 / Appendix 1



cadw'r môr allan

*Beth ydy
'welcome'
yn Gymraeg?*

croeso

*Beth ydy
'one evening'
yn Gymraeg?*

un noson

*Beth ydy
'everyone'
yn Gymraeg?*

pawb

*Beth ydy
'What about the door?'
yn Gymraeg?*

Beth am y drws?

*Beth ydy
'flowers'
yn Gymraeg?*

blodau

*Beth ydy
'trees'
yn Gymraeg?*

coed

*Beth ydy
'He had drunk and eaten
a lot'
yn Gymraeg?*

*Roedd o / e wedi yfed a
bwyta llawer*

*Beth ydy
'the people'
yn Gymraeg?*

Atodiad 1 / Appendix 1



y bobl

*Beth ydy
`sometimes`
yn Gymraeg?*

weithiau

*Beth ydy
`to say`
yn Gymraeg?*

dweud

*Beth ydy
`to hear`
yn Gymraeg?*

clywed

*Beth ydy
`bell, bells`
yn Gymraeg?*

cloch, clychau

*Beth ydy
`church`
yn Gymraeg?*

eglwys

**Da iawn pawb.
Y DIWEDD!**

Atodiad 2 / Appendix 2



Atodiad 2 / Appendix 2



Atodiad 2 / Appendix 2



Atodiad 2 / Appendix 2



Atodiad 3 Model o ddeialog (Lefel 3)

Appendix 3 Model dialogue (Level 3)

Gwahoddiad i barti

Partner A: Bore da. Sut wyt ti?

Partner B: Da iawn diolch. A ti?

Partner A: Gwych. Mae hi'n braf heddiw.

Partner B: Ydy, braf iawn. Wyt ti eisiau mynd i'r parti nos Sadwrn?

Partner A: Dw i'n mwynhau mynd i barti. Ble mae'r parti?

Partner B: Yn y castell. Castell y Brenin.

Partner A: Parti yn y castell? Ydw, dw i eisiau mynd i'r parti os gweli di'n dda. Faint o'r gloch mae'r parti?

Partner B: Am 6 o'r gloch.

Partner A: Oes bwyd yn y parti?

Partner B: Oes, mae llawer o fwyd yn y parti - creision, pizza, ffrwythau a brechdanau ham, caws a salad. Mmm. Dw i'n hoffi brechdanau caws.

Partner A: Dw i ddim yn hoffi brechdanau caws ond dw i'n hoffi brechdanau ham.

Partner B: A fi hefyd. Wela i di dydd Sadwrn.

Partner A: Hwyl.

Partner B: Hwyl fawr.

Atodiad 4 / Appendix 4



Meini prawf llwyddiant enghreifftiol ar gyfer lefel 3 Exemplar success criteria level 3

Wnes i ...? / Did I ...?	√	x	
• Begin the conversation appropriately			
• Ask and answer questions with confidence			
• Listen and respond appropriately			
• Make sure that the conversation flows naturally and in an orderly fashion			
• Express opinions simply and make some statements voluntarily			
• End the conversation appropriately			



Atodiad 5 Model o ddeialog - De (Lefel 4)

Appendix 5 Model dialogue - South (Level 4)

Gwahoddiad i barti

Partner A: Bore da. Sut wyt ti heddiw?

Partner B: Da iawn diolch. A ti?

Partner A: Gwych. Mae hi'n braf heddiw.

Partner B: Ydy, braf iawn ond mae hi'n oer hefyd.
Wyt ti eisiau mynd i'r parti nos Sadwrn?

Partner A: Dw i'n dwlu ar fynd i barti. Ble mae'r parti?

Partner B: Yn y castell. Castell y Brenin.

Partner A: Parti yn y castell? Ydw wir, dw i eisiau
mynd i'r parti. Es i i barti pen-blwydd Jac
dydd Gwener. Roedd y parti yn ffantastig,
llawer o fwyd, dawnsio a hwyl. Beth wyt ti'n
hoffi wneud mewn parti?

Partner B: Dw i'n hoffi dawnsio a chwarae gemau.

Partner A: Dw i'n hoffi chwarae gemau hefyd ond mae'n
gas 'da fi ddawnsio achos mae'n ddiflas. Faint
o'r gloch mae'r parti?

Partner B: Am 6 o'r gloch.

Partner A: Oes bwyd yn y parti?

Partner B: Oes, mae llawer o fwyd yn y parti fel creision,
pizza, ffrwythau a brechdanau ham, caws a salad.

Partner A: Dw i ddim yn hoffi brechdanau caws ond dw i'n hoffi
brechdanau ham. Pa fath o frechdanau wyt ti'n hoffi?

Partner B: Dw i'n dwlu ar frechdanau ham hefyd achos mae
ham yn flasus. Dw i'n edrych ymlaen at fynd i'r parti.

Partner A: A fi hefyd. Wela i di dydd Sadwrn am 6 o'r gloch. Hwyl!

Partner B: Hwyl fawr!

Atodiad 5 Model o ddeialog - Gogledd (Lefel 4)

Appendix 5 Model dialogue - North (Level 4)

Gwahoddiad i barti

Partner A: Bore da. Sut wyt ti heddiw?

Partner B: Da iawn diolch. A ti?

Partner A: Gwych. Mae hi'n braf heddiw.

Partner B: Ydy, braf iawn ond mae hi'n oer hefyd.
Wyt ti eisiau mynd i'r parti nos Sadwrn?

Partner A: Dw i wrth fy modd yn mynd i barti. Ble mae'r parti?

Partner B: Yn y castell. Castell y Brenin.

Partner A: Parti yn y castell? Ydw wir, dw i eisiau
mynd i'r parti. Es i i barti pen-blwydd Jac
dydd Gwener. Roedd y parti yn ffantastig,
llawer o fwyd, dawnsio a hwyl. Beth wyt ti'n
hoffi wneud mewn parti?

Partner B: Dw i'n hoffi dawnsio a chwarae gemau.

Partner A: Dw i'n hoffi chwarae gemau hefyd ond mae'n
gas gen i ddawnsio achos mae'n ddiflas. Faint
o'r gloch mae'r parti?

Partner B: Am 6 o'r gloch.

Partner A: Oes bwyd yn y parti?

Partner B: Oes, mae llawer o fwyd yn y parti fel creision,
pizza, ffrwythau a brechdanau ham, caws a salad.

Partner A: Dw i ddim yn hoffi brechdanau caws ond dw i'n hoffi
brechdanau ham. Pa fath o frechdanau wyt ti'n hoffi?

Partner B: Dw i'n hoffi brechdanau ham hefyd achos mae ham
yn flasus. Dw i'n edrych ymlaen at fynd i'r parti.

Partner A: A fi hefyd. Wela i di dydd Sadwrn am 6 o'r gloch. Hwyl!

Partner B: Hwyl fawr!

Atodiad 5 Model o ddeialog (Lefel 4)

Appendix 5 Model dialogue (Level 4)

Gwahoddiad i barti / An invitation to a party

Partner A: Greet. Ask how he / she is?

Partner B: Answer. Return question.

Partner A: Answer. Comment on the weather.

Partner B: Agree and volunteer another statement about the weather. Ask if he / she wants to go to the party.

Partner A: Express an opinion on going to a party. Ask where the party is being held.

Partner B: Respond.

Partner A: Say that you want to go to the party. Talk about a party you have been to. Express an opinion about the party. Ask your partner what he / she likes to do in a party.

Partner B: Answer.

Partner A: Agree / disagree and give a reason. Ask what time is the party.

Partner B: Answer.

Partner A: Ask if there is food in the party.

Partner B: Answer and say that there is food in the party and give examples of tasty food.

Partner A: Express an opinion on the food and give reason / reasons. Ask what food he / she likes.

Partner B: Answer. Express your opinion about favourite food and give reason / reasons. Say that you are looking forward to going the party.

Partner A: Agree. Say that you will see him / her at the party (include day and time). Bid farewell!

Partner B: Bid farewell!

Atodiad 6 / Appendix 6



Meini prawf llwyddiant enghreifftiol ar gyfer lefel 4 Exemplar success criteria level 4

Wnes i ...? / Did I ...?	✓	x
• Begin the conversation appropriately		
• Ask and answer questions with confidence		
• Listen and respond appropriately		
• Make sure that the conversation flows naturally and in an orderly fashion		
• Express opinions and give various reasons		

